Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

# Cyllideb Ddrafft 2025-26

## Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair

Rhagfyr 2024

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50920, ISBN digidol 978-1-83625-795-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Tabl Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg** | **2** |
| **Pennod 1: Y Cyd-destun Strategol** | **4** |
| **Pennod 2: Y Cyd-destyn Ariannol ac Economaidd** | **8** |
| **Pennod 3: Trefniadau Cyllido** | **10** |
| **Pennod 4: Blaenoriaethau gwario Llywodraeth Cymru** | **17** |
| **Pennod 5: Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario** | **29** |
| **Atodiad A: Gwybodaeth dechnegol am gynlluniau Cyllid Arloesol** | **31** |
| **Atodiad B: Rhagolygon trethi datganoledig ac addasiadau i'r grant bloc** | **32** |
| **Atodiad C: Rhestr o Dermau Ariannol** | **36** |

# Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg

Dros yr 14 blynedd diwethaf, wrth wneud penderfyniadau am gyllideb Cymru, rydym wedi wynebu cyfres o ddewisiadau anodd, flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae dewisiadau gwleidyddol llywodraethau blaenorol y Deyrnas Unedig – degawd o gyni; cytundeb Brexit caled iawn; mini-gyllideb drychinebus Truss a'r argyfwng costau byw a ddaeth wedyn – i gyd wedi taflu cysgod hir dros y cyllid sydd wedi bod ar gael i Gymru; i'w gwasanaethau cyhoeddus, ei busnesau a'r cyhoedd. Y rheswm dros hyn yw bod y rhan fwyaf o'n cyllid yn dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU ar ffurf grant bloc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed dros yr 14 blynedd diwethaf i ddiogelu Cymru a sefydliadau Cymru rhag y niwed gwaethaf yn ystod y cyfnod hwnnw. Rydym wedi gwneud hynny drwy flaenoriaethu gwasanaethau cyhoeddus a rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl ble bynnag y bo modd.

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth wedi'i dargedu drwy ein trethi lleol, y dreth gyngor a chyfraddau annomestig. Mae cymorth ar gael i aelwydydd incwm isel ar gyfer eu biliau treth gyngor drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Byddwn hefyd yn parhau i roi cymorth i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill i dalu eu biliau ardrethi annomestig.

Mae'n wir o hyd ein bod yn gwario mwy ar lywodraeth leol, mwy ar iechyd a gofal cymdeithasol a mwy ar addysg y pen yng Nghymru nag a wneir yn Lloegr. Fodd bynnag, ar ôl 14 blynedd ac er gwaethaf ein hymdrechion gorau, mae llawer o wasanaethau'n fregus ac ni allant wrthsefyll rhagor o ergydion. Mae gormod o wasanaethau'n rhy agos at y dibyn.

Nawr, am y tro cyntaf ers 14 blynedd, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU sy'n rhannu ein gwerthoedd. Yn ei chyllideb gyntaf ar 30 Hydref, cyfeiriodd y Canghellor at gyllid ychwanegol o ran adnoddau a chyfalaf i Gymru yn 2025-26. Mae hyn wedi'n galluogi i gynyddu, mewn termau real, bob cyllideb adrannol yn Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu £1.5bn yn ychwanegol eleni, o gymharu â'r llynedd pan oedd y Cabinet yn wynebu'r setliad anoddaf yn hanes datganoli a phan fu'n rhaid iddo wneud dewisiadau anodd iawn i ailfodelu ac ailflaenoriaethu cynlluniau gwario ym mhob rhan o'r llywodraeth. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn arwydd o ddyfodol mwy disglair i ddod ar ôl 14 blynedd anodd. Dyma gyllideb a fydd yn creu'r amodau ar gyfer twf a buddsoddiad yn hanfodion ein gwlad.

Am y tro cyntaf, mae ein cyllidebau cyfalaf wedi cynyddu mewn termau real – 10 gwaith y twf blynyddol cyfartalog mewn cyllid cyfalaf a fu ar gael dros yr 14 blynedd diwethaf. Byddwn yn estyn yr amlen gyfalaf ymhellach fyth drwy fanteisio'n llawn ar ein capasiti benthyca, fel y gallwn drwsio'r sylfeini, buddsoddi mewn seilwaith ac annog twf.

Mae'r bartneriaeth newydd rhwng dwy lywodraeth – yn San Steffan ac yng Nghymru – yn golygu y gallwn ddechrau troi'r gornel a thrwsio difrod yr 14 blynedd diwethaf, gan ein rhoi ar ben ffordd at dwf.

Er i Blaid Cymru ddod â'r Cytundeb Cydweithio i ben yn gynnar, rydym yn parhau i barchu ein rhwymedigaethau parhaus i ariannu ymrwymiadau'r cytundeb, sy'n ffurfio cyfran fach o gyllideb Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Drwy gydol y broses hon, rydym wedi cael ein harwain gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau'r Prif Weinidog. Rydym wedi parhau i fynd ati i ddeall effeithiau integredig y dewisiadau yr ydym yn eu gwneud a'r angen i weithredu i atal yr effaith waethaf ar wasanaethau. Mae hyn yn golygu ein bod yn gweithredu yn y tymor byr i'w diogelu ar gyfer y dyfodol. Rydym yn cynnal ein hymrwymiad i barchu'r egwyddorion hyn wrth inni symud ymlaen a chan ystyried ac addasu pan fo angen.

Nid fydd y Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2025-26 yn datrys pob problem nac yn trwsio pob peth – ac ni ddylem ddisgwyl iddi wneud hynny. Mewn llawer o feysydd, mae'r setliadau o ran adnoddau yn dynn, ac mae pwysau'n parhau. Mae'r hinsawdd ariannol gyffredinol yr ydym ni i gyd yn gweithredu ynddi yn heriol o hyd. Ond am y tro cyntaf ers amser hir, mae'r gyllideb hon yn rhoi gobaith inni ar gyfer dyfodol mwy disglair.

# Pennod 1: Y Cyd-destun Strategol

## Trosolwg

1. Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn nodi ein gwariant adnoddau a chyfalaf a’n cynlluniau trethiant ar gyfer 2025-26.

## Ffynonellau Cyllid a Chyfrifoldebau Ariannol

2. Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu’n bennaf gan grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU. Y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn drwy'r grant bloc ar gyfer 2025-26 yw £21bn; mae hyn yn cynnwys bron i £18bn o gyllid adnoddau a thros £3bn o gyllid cyfalaf. Am y tro cyntaf, rydym yn dyrannu dros £3bn o gyfalaf yn y Gyllideb Ddrafft.

3. Yn ogystal â'r grant bloc, bydd tua 20% o wariant Llywodraeth Cymru yn 2025-26 yn cael ei ariannu drwy refeniw o drethi datganoledig – sef Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ac Ardrethi Annomestig. Mae trethiant datganoledig yn cynnig ysgogiad pwysig y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i godi refeniw a chyflawni ein blaenoriaethau strategol.

4. Mae'r ffeithlun isod yn rhoi manylion y cyllid a gafodd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.



5. Ceir gwybodaeth bellach am y polisi trethi ac am refeniw ym Mhennod 3.

6. Mae cytundeb fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru yn nodi'r trefniadau sy'n cefnogi datganoli trethi, pwerau benthyca cyfalaf, offer rheoli cyllidebol, ac addasiad i Fformiwla Barnett a seilir ar anghenion.

7. Gellir gweld tabl Ffynonellau Cyllid sy'n darparu data ar gyfer 2025-26 yn y llyfr gwaith ODS ar dudalen Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar y we.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

8. Rydym yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar ein portffolio presennol o fuddsoddiadau cyfalaf trafodiadau ariannol. Ar gyfer 2025-26 byddwn yn cael cyfalaf trafodiadau ariannol o £85.3m oddi wrth Lywodraeth y DU, ac rydym hefyd yn disgwyl cael ad-daliadau pellach o £42.4m o fuddsoddiadau blaenorol. Byddwn yn defnyddio hyn i fuddsoddi mwy na £127m mewn amrywiaeth eang o brosiectau sy'n rhoi cymorth i fusnesau a'r sector tai, gan roi budd i sawl rhan o'n cymdeithas a'n heconomi.

9. Mae'r dyraniadau penodol yr ydym yn eu gwneud ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol yn 2025-26 wedi'u nodi ym mhennod 4.

## Blaenoriaethau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft

10. Cyhoeddir y Gyllideb Ddrafft hon yn dilyn cyfnod parhaus o setliadau ariannol heriol i Gymru. Cyllideb ar gyfer dyfodol mwy disglair ydyw sy'n ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau, diogelu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a buddsoddi ynddynt, a hybu twf. Byddwn yn buddsoddi mwy na £1.5bn yng Nghymru – mewn adnoddau a chyfalaf – drwy'r Gyllideb hon, gan gyferbynnu'n llwyr â chyllidebau'r blynyddoedd diwethaf.

11. Rydym wedi llunio ein cynlluniau gwario i flaenoriaethu gwasanaethau cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn parhau i gyflawni dros bobl Cymru gyda buddsoddiad yn cael ei dargedu tuag at gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru:

    **Iechyd da** – lleihau amseroedd aros yn y GIG, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl; gwella mynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd menywod.

    **Swyddi a thwf gwyrdd** – creu swyddi gwyrdd sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, gan sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill; a chyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru.

    **Cyfle i bob teulu** – hybu safonau mewn ysgolion a cholegau a darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo.

    **Cysylltu cymunedau** – trawsnewid ein rheilffyrdd a darparu gwell rhwydwaith bysiau; trwsio ein ffyrdd a grymuso cymunedau lleol i wneud dewisiadau ar y terfyn cyflymder 20mya.

12. Mae Pennod 4 yn amlinellu ein prif gynlluniau gwario a'n penderfyniadau ar fuddsoddiadau ychwanegol.

## Tâl y Sector Cyhoeddus

13. Cafodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y DU yn 2024-25 a hwylusodd ddyfarniadau tâl uwch na chwyddiant i dros 180,000 o weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru.  Mae'r cyllid hwn wedi'i gynnwys yn y llinell sylfaen ar gyfer 2025-26, felly mae cyllid ychwanegol y cyfeiriwyd ato ar gyfer 2025-26 eisoes yn cynnwys y codiadau a ddarparwyd yn 2024-25.

## Llinellau Sylfaen

14. Fel y crybwyllir uchod, darparwyd cyllid sylweddol yn 2024-25 sy'n digwydd dro ar ôl tro ac felly mae'n cael ei gynnwys yng nghyllideb 2025-26 cyn i'r dyraniadau cyllid ychwanegol gael eu gwneud. Mae'r addasiadau hyn wedi'u hamlinellu yn y tablau sy'n ategu'r gyllideb ac yn dangos sut y mae'r sefyllfa wedi newid yn ystod 2024-25 ers ailddatgan Cyllideb Derfynol 2024-25 a nodir yn y Gyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd fis Hydref.

## Goblygiadau Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU

15. Cafodd Llywodraeth Cymru setliad ariannu ar gyfer 2025-26 yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU. Roedd y setliad ar gyfer 2025-26 yn gynnydd o £695m o adnoddau a chyfalaf cyffredinol o £235m.

16. Mae Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) adnoddau cyllidol Llywodraeth Cymru yn £21.325bn ar gyfer 2025-26, cyn addasiadau i'r grant bloc. Y DEL Cyfalaf Cyffredinol yw £3.276m, gyda £85m pellach ar gyfer trafodiadau ariannol.

17. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael setliad un flwyddyn, felly mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn amlinellu cynlluniau gwario am un flwyddyn yn unig. Rydym yn disgwyl setliadau amlflwyddyn ar gyfer adnoddau a chyfalaf ar ddiwedd Adolygiad Gwariant y DU yn hanner cyntaf 2024 a fydd yn rhoi sicrwydd y mae ei fawr angen ar Lywodraeth Cymru a'n partneriaid.

18. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU, fel rhan o Gyllideb yr Hydref , y byddai llywodraethau datganoledig yn cael cyllid ychwanegol i helpu i liniaru cost y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, y tu hwnt i'r cyllid a ddyrannwyd yng Nghyllideb y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn defnyddio diffiniad swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o gyflogai gwasanaeth cyhoeddus at y diben hwn. Rydym yn parhau i gydweithio â Thrysorlys EF i egluro lefel y cymorth hwn, er mwyn llywio ein cynllunio cyllidebol. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i roi eto i Lywodraeth Cymru ac felly nid yw'n rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon.

19. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i gyflawni dros Gymru mewn nifer o feysydd. Enghraifft o hyn yw drwy gadarnhau cyllid ychwanegol ar gyfer diogelwch tomenni glo yng Nghymru a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU; ceir manylion pellach am ddyrannu'r cyllid hwn ym Mhennod 4. Rydym wedi cael cyllid sylweddol hefyd ar gyfer tâl y sector cyhoeddus yn 2024-25 a seilir ar linell sylfaen 2025-26 ac a fydd yn cefnogi gwaith hanfodol gweithlu ein sector cyhoeddus mewn cymunedau ledled Cymru.

## Adolygiad Gwariant Cymru

20. Gan edrych y tu hwnt i Gyllideb Flynyddol 2025-26, mae gwaith wedi dechrau ar Adolygiad Gwariant Cymru, ymarfer a fydd yn ystyried cynllunio cyllidol tymor hwy i Gymru, gan ddefnyddio'r holl ysgogiadau cyllidol sydd ar gael. Drwy fynd i'r afael â'r heriau gwariant cydnabyddedig y mae Cymru yn eu hwynebu, dros y tymor hwy, bydd y dull hwn yn darparu'r amddiffyniad gorau posibl yn erbyn y rhagolygon cyllidol heriol ar gyfer cyllid cyhoeddus. Bydd ystyried yr heriau hyn yn y dyfodol drwy lens fwy ataliol yn nodwedd allweddol ar y gwaith hwn.

## Proses y Gyllideb

21. Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cael ei chyhoeddi ar 10 Rhagfyr 2024. Ar ôl i'r Senedd graffu ar y cynlluniau hyn, cyhoeddir Cyllideb Derfynol 2025-26 ar 25 Chwefror 2025.

# Pennod 2: Y Cyd-destyn Ariannol ac Economaidd

1. Fel y mae Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024 yn amlinellu, mae economi Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn o fewn economi'r DU yn ehangach. Mae llawer o'r tueddiadau cyffredinol sy'n effeithio ar economi'r DU yn debygol o gael eu hadlewyrchu yn amodau economaidd Cymru neu ddylanwadu'n drwm arnynt.

2. Cynyddodd allbwn economaidd neu gynnyrch domestig gros (GDP) y DU yn gryf yn hanner cyntaf 2024 yn dilyn cyfnod o ddirwasgiad yn ail hanner 2023. Er hynny, nid yw’r cynnydd mewn perfformiad wedi parhau, gydag allbwn yn arafu yn y trydydd chwarter.

3. Ar gyfer y flwyddyn galendr 2024 mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a Banc Lloegr yn disgwyl twf mewn allbwn o ryw 1.0%, sy'n gryfach na'r disgwyl. Pan gyhoeddwyd *Adroddiad a Rhagolygon Cyllidol 2023* y Prif Economegydd ddeuddeg mis yn ôl, roedd y gyfradd twf yn llai na hanner y gyfradd twf cyfartalog flynyddol cyn yr argyfwng ariannol.

4. O'i chymharu â'r perfformiad cyn yr argyfwng ariannol, mae economi'r DU wedi tanberfformio ers 15 mlynedd. Dywedodd OBR y dylai'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yng Nghyllideb yr Hydref 2024 Llywodraeth y DU roi hwb i'r economi yn 2025 gyda thwf allbwn blynyddol wedi'i ragamcanu yn 2.0%. Disgwylir i dwf ddisgyn rywfaint yn y pedair blynedd nesaf. Mae OBR yn datgan y gallai cynlluniau Llywodraeth y DU i gynyddu gwariant buddsoddi hybu alldro economaidd yn 2030 a'r tu hwnt, yn enwedig os cânt eu cynnal ar lefel uwch na'r hyn a fwriadwyd yn flaenorol.

5. Mae'r farchnad lafur wedi bod yn anodd ei darllen yn 2024 wrth i'r materion hygrededd a danseiliodd Arolwg y Gweithlu (LFS) yn 2023 barhau. O ganlyniad, mae dadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth i'r tueddiadau a arddangosir gan ffynonellau data eraill y farchnad lafur i ffurfio barn wybodus am amodau'r farchnad lafur.

6. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS), Gwybodaeth Amser Real Cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE) CThEF a'r Cyfrif Hawlwyr, sef nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra. Mae ystyried y ffynonellau ehangach hyn yn awgrymu bod y farchnad lafur yng Nghymru ac ar draws y DU wedi colli momentwm yn 2024. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod y sector preifat yn cwtogi nifer y cyflogeion tua diwedd y flwyddyn.

7. Heblaw'r momentwm a gollwyd mewn twf cyflogaeth, mae lefel uchel o anweithgarwch economaidd hefyd ymhlith y boblogaeth oedran gweithio y mae llawer ohono wedi'i achosi gan salwch tymor hir. Mae'r data APS diweddaraf, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Gorffennaf 2023 a Mehefin 2024, yn dangos bod rhyw 470,000 o bobl economaidd anweithgar rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru; rhyw 20,000 yn uwch na'r cyfnod cyn y pandemig. Gwnaeth hyn wrthdroi'r duedd hirdymor o gyfradd anweithgarwch sydd ar drai yng Nghymru a'r DU.

8. Mae cyfradd anweithgarwch economaidd Cymru o 24.4% yn debyg i ardaloedd mwy cymaradwy'r DU, gan gynnwys yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau gogleddol Lloegr.

9. Mae twf economaidd gwan dros sawl blwyddyn ynghyd â chynnydd mewn dyled, a sbardunwyd gan bandemig Covid-19 ac ymyriadau prisiau ynni a ddefnyddiwyd i gefnogi aelwydydd a busnesau yn ystod 2022, wedi gadael arian cyhoeddus mewn cyflwr enbyd. Mae OBR yn disgwyl i fenthyca gan Lywodraeth y DU neu ddiffyg y gyllideb yn 2024-25 ddod i gyfanswm o £128bn, sy'n cyfateb i 4.5% o GDP, yr un fath ag yn 2023-24. Disgwylir i fenthyca yn 2025-26 fod yn £106bn, sy'n cyfateb i 3.6% o GDP. Y diffyg cyllidebol tymor hir cyfartalog (1955-56 i 2007-08) yw 2.3% o GDP.

10. Mae benthyca yn ychwanegu at stoc ddyled Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd mae dyled Llywodraeth y DU sydd heb ei thalu ychydig yn llai na 100% o GDP, o'i chymharu â'r lefel o 35.6% cyn yr argyfwng ariannol a gofnodwyd yn 2007-08. Ar yr un pryd ag y mae benthyca a dyled wedi cynyddu, bu cynnydd yn yr un modd yn y gyfran o incwm cenedlaethol sy'n ymwneud â threth a gwario cyhoeddus. Gellir esbonio'r duedd ar i fyny mewn gwario cyhoeddus gan y tueddiadau demograffig anffafriol o salwch ymhlith pobl o oedran gweithio. O ganlyniad, cynyddodd gwariant ar les a chostau llog gwasanaethu dyled uchel. Rhagwelir y bydd gwariant ar amddiffyn yn ychwanegu at y pwysau hyn yn y blynyddoedd i ddod gan greu amgylchedd heriol iawn ar gyfer cyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

11. Cynyddodd Cyllideb yr Hydref 2024 Llywodraeth y DU dreth a benthyca i alluogi gwariant ychwanegol ar adnoddau a chyllidebau cyfalaf y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylid yn gynharach yn y flwyddyn. O ganlyniad, mae hyn wedi arwain at gynnydd i setliad ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf gan Lywodraeth y DU.

12. Er gwaethaf y cynnydd yng ngwariant y llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus eleni a'r flwyddyn nesaf, mae'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yn y dyfodol yn edrych yn heriol. Ar sail cynlluniau gwario presennol Llywodraeth y DU, disgwylir i godiadau mewn gwariant gwasanaethau cyhoeddus dros y tymor canolig fod yn llawer is.

13. Mae cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn 2025-26 i fyny 5% mewn termau real o'i chymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24 ar sail tebyg at ei debyg. Mae amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn awgrymu y bydd codiadau mwy cymedrol.

14. Mae cyllideb cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru yn 2025-26 i fyny 7% mewn termau real o'i chymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24. Mae amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn awgrymu rhagolwg mwy heriol ar gyfer cyllidebau cyfalaf, gyda rhai gostyngiadau yn bosibl yn 2029-30 wrth inni gyrraedd terfynau benthyca.

15. I gael rhagor o fanylion am y cyd-destun economaidd a chyllidol, gweler Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024.

# Pennod 3: Trefniadau Cyllido

## Trosolwg

1. Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu gan grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU a thrwy refeniw o drethi datganoledig. Mae'r trethi datganoledig yng Nghymru yn cynnwys Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC), y Dreth Trafodiadau Tir (LTT), y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) ac Ardrethi Annomestig (NDR). Gyda'i gilydd, maent yn cyfrannu mwy na £5bn i gyllideb Cymru yn 2025-26.

## Polisi Trethi

2. Mae trethi'n darparu ysgogiad hanfodol i gefnogi cyflawni blaenoriaethau strategol pwysig i fusnesau a dinasyddion Cymru. Ategir dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi trethi gan y *Fframwaith Polisi Trethi*[1], sy'n nodi'r setliad datganoli cyllidol fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017. Mae'n amlinellu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer treth ynghyd â'r heriau a'r cyfleoedd.

3. Mae'r *Fframwaith Polisi Trethi* wedi'i ddiweddaru yn ystyried y gwersi a ddysgwyd a'r profiad o lunio polisi trethi ers i drethi gael eu datganoli. Mae'n nodi ac yn mynegi'r dull Cymreig neilltuol o ddatblygu a gweithredu polisi trethi ar y cyd, gan gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid yn y broses. Mae'n nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ymgorffori cynaliadwyedd, tegwch ac ystyriaethau cydraddoldeb yn y modd yr ydym yn mynd i'r afael â'n blaenoriaethau.

4. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r *Cynllun Gwaith ar Bolisi Trethi 2021-2026*[2] ochr yn ochr â'r diweddariad i'r *Fframwaith Polisi Trethi*. Mae'n adeiladu ar ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu[3] mewn perthynas â threthi datganoledig a lleol ac yn hyrwyddo'r nod o sicrhau datganoli trethi mewn modd cryf a sefydlog. Mae'n rhoi cyfeiriad a sicrwydd clir o ran blaenoriaethau polisi trethi Cymru am gyfnod o bum mlynedd.

5. Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi cyhoeddi'r *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru* diweddaraf sy'n nodi'r cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith pum mlynedd[4]. Mae'n cynnwys manylion y newidiadau treth a wnaed a'r rhai a gynigir wrth bennu'r amlen ariannu ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon.

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC)

6. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) ar 6 Ebrill 2019. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bob agwedd arall ar dreth incwm o hyd ac mae CThEF yn parhau i weinyddu treth incwm yng Nghymru[5].

---

[1] Diweddariad ar y fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU


[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2021-i-2026.pdf

[3] https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu

[4] https://www.gov.wales/tax-policy-report-december-2024

[5] Yn y rhan fwyaf o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymru fel pobl sy'n byw yng Nghymru. Er hynny, ceir diffiniad llawn o dan adran 8 o Ddeddf Cymru 2014: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29/section/8/enacted

Siart 3.1: Cyfraddau treth incwm arfaethedig yng Nghymru, 2025-26




7. Mae'r broses ar gyfer Cymru'n golygu bod Llywodraeth y DU yn lleihau 10c ar bob un o'r tair cyfradd treth incwm i drethdalwyr Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn penderfynu a yw am bennu cyfraddau Cymru'n 10c, gan gadw cydraddoldeb rhwng trethdalwyr Cymru a Lloegr neu i bennu cyfraddau gwahanol.

8. Gan fod y baich trethi presennol ar aelwydydd yng Nghymru ar ei uchaf ers cenhedlaeth, ynghyd â'r pwysau parhaus ar gyllidebau aelwydydd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig pennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2025-26 yn 10c.

9. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw newid i CTIC yn 2025-26 ac y bydd talwyr treth incwm Cymru yn talu'r un cyfraddau treth incwm â'u cymheiriaid yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Trethi Cymreig Eraill

10. Mae LTT ac LDT wedi'u datganoli'n llawn i Gymru. Mae'r ddwy dreth hyn yn cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae LTT ac LDT yn cynnig ysgogiadau pwysig sy'n galluogi Llywodraeth Cymru, os yw'n briodol, i hyrwyddo amcanion strategol eraill y llywodraeth, megis mynd i'r afael ag effaith niferoedd yr ail gartrefi mewn cymunedau yng Nghymru neu gefnogi cyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

11. Yn dâl am y refeniw trethi, mae grant bloc Cymru wedi'i ostwng yn ôl swm sy'n gyfwerth â'r hyn yr oedd trethi blaenorol y DU (Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT) a'r Dreth Dirlenwi) yn ei godi yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol bod y ddwy dreth ddatganoledig yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, i gynhyrchu'r refeniw y mae ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol Cymru.

## Y Dreth Trafodiadau Tir

12. Mae cyfraddau a throthwyon y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae'r cyfraddau sy'n daladwy ar drafodiadau cyfraddau preswyl uwch yn cael eu cynyddu 1 pwynt canran ar gyfer pob band gydag effaith o 11 Rhagfyr 2024. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i'r cyfraddau na'r trothwyon yn ystod y flwyddyn hon. Gwnaed newidiadau parhaol blaenorol i'r prif gyfraddau preswyl ym mis Hydref 2022, a chyn hynny ym mis Rhagfyr 2020.

Tabl 3.1: Prif gyfraddau preswyl LTT (o 10 Hydref 2022)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £400,000 | 6% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| Mwy na £1.5m | 12% |

Tabl 3.2: Cyfraddau preswyl uwch LTT (o 22 Rhagfyr 2020 tan 10 Rhagfyr 2024)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 4% |
| Mwy na £180,000 i £250,000 | 7.5% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 9% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 11.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 14% |
| Mwy na £1.5m | 16% |

Tabl 3.3: Cyfraddau preswyl uwch LTT (o 11 Rhagfyr 2024 ymlaen)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 5% |
| Mwy na £180,000 i £250,000 | 8.5% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 10% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 12.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 15% |
| Mwy na £1.5m | 17% |

Tabl 3.4: Prif gyfraddau amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £250,000 | 1% |
| Mwy na £250,000 i £1m | 5% |
| Mwy na £1m | 6% |

Tabl 3.5: Rhent les amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £2m | 1% |
| Mwy na £2m | 2% |

## Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

13. Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cynnig bod cyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) yn cynyddu i £126.15.

14. Yn wahanol i'r dull blaenorol o bennu ardrethi, caiff y gyfradd ei phennu i adlewyrchu newidiadau mewn RPI gwirioneddol yn well yn y cyfnod 2022 i 2024, ar ôl sawl blwyddyn o gael ei phennu ar sail RPI a ragamcanwyd. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chynnydd Llywodraeth y DU yng nghyfradd safonol y Dreth Dirlenwi ac felly yn cyfyngu ar y cymhelliant ar gyfer twristiaeth gwastraff dros y ffin.

15. Bydd y gyfradd heb ei hawdurdodi yn cael ei chynyddu i gynnal ei chyfradd yn 150% o'r gyfradd safonol.

16. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfradd is LDT, mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cynnig bod cyfradd is LDT yn cynyddu i £6.30. Mae'r cynnydd hwn yn y gyfradd is yn adlewyrchu bwriad polisi Llywodraeth Cymru o gymell ailddefnyddio, ailgylchu a lleihau gwastraff a lleihau unrhyw gymhelliant i gamddisgrifio gwastraff.

17. Mae'r cyfraddau arfaethedig ar gyfer LDT, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn cynyddu fel y nodir yn y tabl isod.

Tabl 3.6: Cyfraddau LDT (cyfradd fesul tunnell)

| Cyfradd | O 1 Ebrill 2023 | O 1 Ebrill 2024 | O 1 Ebrill 2025 |
|---|---|---|---|
| Safonol | £102.10 | £103.70 | £126.15 |
| Is | £3.25 | £3.30 | £6.30 |
| Gwarediadau heb eu hawdurdodi | £153.15 | £155.55 | £189.25 |

## Ardrethi Annomestig

18. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cap o 1% ar y cynnydd i'r lluosydd ardrethi annomestig (NDR) yng Nghymru ar gyfer 2025-26. Mae hyn yn is na'r cynnydd o 1.7% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr Medi) a fyddai fel arall yn gymwys oherwydd chwyddiant diofyn y lluosydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Mae'n cael ei ddarparu ar gost flynyddol gylchol o £7m o 2025-26 ymlaen. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y ddeddfwriaeth ofynnol, y lluosydd dros dro ar gyfer 2025-26 yw 0.568.

19. Capio'r cynnydd i'r lluosydd NDR i 1% yw'r lefel uchaf o gymorth sy'n fforddiadwy gan ddefnyddio'r holl gyllid canlyniadol i Gymru o ganlyniad i benderfyniadau sy'n ymwneud â'r lluosydd a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU. Mae'n sicrhau y bydd pob talwr ardrethi nad yw eisoes yn cael rhyddhad llawn yn elwa.

20. Byddwn hefyd yn buddsoddi £78m yn ychwanegol i ddarparu chweched flwyddyn yn olynol o gefnogaeth i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda'u biliau NDR. Mae hyn yn adeiladu ar y cymorth o £1bn sydd wedi'i ddarparu drwy ein cynlluniau rhyddhad ardrethi ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch ers 2020-21. Bydd talwyr ardrethi cymwys yn cael rhyddhad NDR o 40% drwy gydol 2025-26. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, bydd y rhyddhad yn cael ei gapio ar £110,000 fesul busnes ledled Cymru.

21. Bydd y mesurau hyn i gyd yn darparu £85m o gymorth ychwanegol ar gyfer 2025-26. Ar y cyd â'n rhyddhad parhaol a ariennir yn llawn, sy'n werth £250m i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill bob blwyddyn, caiff £335m ei fuddsoddi mewn cymorth NDR. Bydd pawb sy'n talu ardrethi yn elwa ar y pecyn hwn.

## Rhagolygon Refeniw Trethi Annibynnol

22. Mae rhagolygon annibynnol o refeniw trethi datganoledig oddi wrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ynghlwm wrth y Gyllideb Ddrafft hon. Mae adroddiad *Rhagolwg Trethi Cymreig* ar wahân sy'n darparu cefndir a manylion am y rhagolygon wedi'i gyhoeddi ar wefan OBR. Dangosir y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn a gwmpesir gan y Gyllideb Ddrafft yn Nhabl 3.6.

Tabl 3.6: Rhagolygon refeniw trethi £m

| | 20205-26 |
|---|---:|
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 338 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 32 |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 3,603 |

## Addasiadau i'r Grant Bloc

23. Yn dilyn datganoli pwerau trethi i Gymru, cafodd grant bloc Llywodraeth Cymru ei leihau oherwydd bod refeniw o drethi datganoledig a rhannol-ddatganoledig bellach yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i Drysorlys y DU.

24. Mae newidiadau o ran yr addasiadau i'r grant bloc yn cael eu hysgogi gan dwf yn y trethi cyfatebol yn y DU. At ddibenion y Gyllideb Ddrafft hon, mae'r addasiadau yn gyson â rhagolygon OBR ynghylch trethi cyfatebol y DU yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol mis Hydref 2024.

25. Mae manylion yr addasiadau i'r grant bloc a'r symiau cysoni i gyfrif am alldro wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

## Cronfa Wrth Gefn Cymru

26. Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018 fel rhan o drefniadau'r fframwaith cyllidol i'n galluogi i ymdrin yn effeithiol ag anwadalrwydd sy'n deillio o refeniw trethi, a thrwy gadw adnoddau heb eu gwario i'w defnyddio yn y blynyddoedd i ddod. Disodlodd y broses flaenorol o gyfnewid cyllidebol.

27. Gall Cronfa Wrth Gefn Cymru ddal hyd at £350m. Mae'r symiau y ceir eu tynnu i lawr bob blwyddyn yn gyfyngedig i £125m ar gyfer gwariant adnoddau a £50m ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes unrhyw derfynau blynyddol ar daliadau i'r gronfa wrth gefn.

28. Nid yw ein cynlluniau gwario ar gyfer 2025-26 yn rhagdybio y caiff unrhyw symiau eu tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru, ar gyfer naill ai adnoddau neu gyfalaf. Byddwn yn defnyddio'r hyblygrwydd a gynigir gan Gronfa Wrth Gefn Cymru wrth reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â phwysau annisgwyl a darparu cynllun wrth gefn ar gyfer risgiau annisgwyl a allai godi.

## Safonau Cyfrifyddu Newydd IFRS16

29. Yn dilyn rhoi Safon Cyfrifyddu IFRS 16 ar waith mae cyllid ychwanegol wedi'i gynnwys yn setliad grant bloc Llywodraeth y DU i gefnogi'r addasiad technegol angenrheidiol o ran trin lesoedd.

30. Yn flaenorol, mae'r cyllid hwn wedi cael ei glustnodi i fynd i'r afael ag effeithiau lesoedd IFRS 16. O 2025-26 bydd y dyraniad hwn yn rhan o'r dyraniad cyfalaf cyffredinol.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

31. Mae setliad DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru oddi wrth Lywodraeth y DU yn cynnwys math penodol o gyfalaf wedi'i glustnodi a ddefnyddir i hybu buddsoddiad dan arweiniad y wladwriaeth mewn endidau preifat a'r trydydd sector. Mae angen ad-dalu cyfran o'r cyllid hwn i Lywodraeth y DU.

32. Y setliad cyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer 2025-26 yw £85.3m. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ad-daliadau o ryw £42m, gan roi cyfanswm cwantwm i'w ddyrannu o ryw £127m. Darperir gwybodaeth bellach am ein buddsoddiadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn 2025-26 ym Mhennod 4.

## Benthyca

33. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu benthyca o’r Gronfa Benthyciadau Gwladol at ddibenion cyfalaf, Mae rhagolygon ad-dalu am y cyfnod yr ydym wedi pennu

cynlluniau cyfalaf ar ei gyfer i'w gweld gan ddefnyddio'r ddolen hon i'r llyfr gwaith ODS Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario: Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario

34. Mae'r rhagolwg ad-dalu yn tybio cyfnod ad-dalu o 25 mlynedd a chyfradd llog o 4.8% ar gyfer benthyca yn y flwyddyn ariannol bresennol.

35. Er mwyn darparu cymaint o fuddsoddiad cyfalaf ag y gallwn ar gyfer 2025-26, rydym yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar fenthyca cyfalaf unwaith eto ar y terfyn o £150m.

## Cyllid Arloesol

**36.** Yn ogystal â'n cyllidebau cyfalaf craidd a'n pwerau benthyca, rydym yn parhau i wneud defnydd llawn o ddulliau cyllido arloesol i helpu i sicrhau buddsoddiad ychwanegol amserol mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau hyn wedi'i darparu yn Atodiad A.

# Pennod 4: Blaenoriaethau gwario Llywodraeth Cymru

## Trosolwg

1. Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yn wariant adnoddau o £21.4bn a gwariant cyfalaf cyffredinol o £3.4bn.

2. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i adrannau gwahanol, neu Brif Grwpiau Gwariant (MEGs), sy'n cwmpasu meysydd polisi gwahanol ac sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau'r Gweinidogion. Mae'r dadansoddiad o'r cyllid fesul MEG ar gyfer adnoddau a chyfalaf cyffredinol fel a ganlyn:

| **Adnoddau Cyllidol** | £000s | | |
|---|---|---|---|
| Prif Grŵp Gwariant (MEGs) | 2024-25 | 2025-26 | |
| | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 11,279,034 | 11,914,914 | 3.80% |
| Llywodraeth Leol a Tai | 5,194,460 | 5,475,393 | 5.41% |
| Addysg | 1,1716,171 | 1,799,681 | 4.87% |
| Trafnidiaeth | 581,870 | 651,527 | 11.97% |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 531,153 | 566,266 | 6.61% |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 442,005 | 461,005 | 4.30% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 132,758 | 139,037 | 4.73% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 339,337 | 428,759 | 7.37% |
| Cyfanswm Adnoddau Cyllidol | 20,476,788 | 21,436,582 | 4.69% |

| **Cyfalaf Cyffredinol** | £000s | | |
|---|---|---|---|
| Prif Grŵp Gwariant (MEGs) | 2024-25 | 2025-26 | |
| | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 439,030 | 614,030 | 39.86% |
| Llywodraeth Leol a Tai | 1,071,630 | 1,191,280 | 11.17% |
| Addysg | 346,500 | 374,500 | 8.08% |
| Trafnidiaeth | 477,797 | 528,797 | 10.67% |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 232,059 | 304,014 | 31.01% |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 205,699 | 327,176 | 59.06% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 14,540 | 17,890 | 23.04% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 10,661 | 15,661 | 46.90% |
| Cyfanswm Cyfalaf Cyffredinol | 2,797,916 | 3,373,348 | 20.57% |

3. Mae'r bennod hon yn rhoi manylion am ein hymrwymiadau yn y gyllideb ar gyfer 2025-26 a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r canlynol:

- y tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwario;
- y Cynllun Cyllid Seilwaith sy'n rhoi rhagor o fanylion am ein dyraniadau cyfalaf cyffredinol arfaethedig;
- yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) sy'n nodi effeithiau ein cynlluniau gwario; ac
- adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru, sy'n darparu'r cyd-destun ehangach sy'n llywio ein proses gwneud penderfyniadau ar gyfer y gyllideb.

## Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi cysoni penderfyniadau gwario yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 â phedair blaenoriaeth y Prif Weinidog, sef blaenoriaethau a luniwyd ar sail yr hyn sydd bwysicaf i bobl Cymru. Gwnaed penderfyniadau hefyd yn unol â chyd-destun strategol Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ein Cerrig Milltir Cenedlaethol, a'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.  Nodir y manylion yn yr SIIA.

5. Mae'r gyllideb hon yn ein galluogi i ailfuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus ar ôl gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn mewn cylchoedd cyllideb diweddar. Mae pwysau'n parhau, ond rydym wedi sicrhau bod yr adnoddau cyllidol sydd gennym yn y gyllideb hon yn cyd-fynd â'r materion pwysicaf i bobl Cymru ac mae cyllid pob adran wedi cynyddu o gymharu â'r llynedd. Mae'r gyllideb hon yn arwydd o ddyfodol mwy disglair i Gymru, gan roi'r wlad ar ben ffordd at dwf unwaith eto.

6. Mae'r dyraniadau cyfalaf cyffredinol a chyfalaf trafodiadau ariannol sylweddol yn darparu buddsoddiad mawr ei angen yn hanfodion Cymru - yn ein hysbytai, ein hysgolion, ein tai a llawer mwy.

## Iechyd Da

7. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cyfleu ein blaenoriaeth i barhau i leihau'r amseroedd aros hiraf yn y GIG, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl, a gwella mynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd menywod.

8. Rydym yn parhau i flaenoriaethu iechyd a gofal cymdeithasol ac yn 2025-26 byddwn yn buddsoddi £435m o gyllid adnoddau ychwanegol. Daw hyn ar ben y cyllid ychwanegol a ddarparwyd i wasanaethau rheng flaen y GIG yn 2024-25. Gyda'i gilydd, mae ein buddsoddiad yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn £880m neu 8%, y mae'r rhan fwyaf ohono'n cefnogi cyflogau'r gweithlu.

9. Mae hyn yn cynyddu'r cyllid adnoddau blynyddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn 2025-26 i £11.915bn. Dyma dros 55% o gyfanswm gwariant adnoddau Llywodraeth Cymru – y maes gwariant unigol mwyaf.

10. Bydd dros £400m o'r cyllid hwn yn cefnogi ystod o ddyraniadau ychwanegol i'r GIG, gan gynnwys gweithgarwch i barhau i leihau'r amseroedd aros hiraf a gwella mynediad amserol at ofal a thriniaeth. Bydd hefyd yn cefnogi dyfarniad cyflog 2025-26 y gweithlu, gan adeiladu ar y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2024-25.

11. Rydym yn dyrannu dros £20m tuag at gyllideb addysg a hyfforddiant gweithlu'r GIG. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ehangu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru a lleoedd hyfforddi meddygol a deintyddol ôl-raddedig ychwanegol, gan sicrhau ein bod yn hyfforddi gweithlu'r dyfodol.

12. Yn unol â blaenoriaethau Iechyd Da, byddwn yn darparu £3m tuag at wella gofal iechyd i fenywod, yn unol â'r cerrig milltir a nodir yng Nghynllun Iechyd Menywod cyntaf Cymru. Cyhoeddir y Cynllun hwnnw ar 10 Rhagfyr 2024. Mae ychydig dros 50% o boblogaeth Cymru'n fenywod neu'n ferched ond nid yw gwasanaethau meddygaeth a gofal iechyd o reidrwydd wedi ateb eu hanghenion. Mae hyn wedi arwain at wahaniaethau sylweddol mewn gofal rhwng dynion a menywod. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Iechyd Menywod a'r gwaith a arweinir gan y GIG o wella darpariaeth gwasanaethau iechyd menywod yn 2025-26. Bydd yn sicrhau bod profiadau menywod yn cael eu clywed a'u cydnabod a bod iechyd menywod yn cael ei sefydlu'n flaenoriaeth i'r GIG.

13. Yng Nghymru, bob mis, mae dwy miliwn o bobl yn cael cysylltiad â gwasanaethau'r GIG, a hynny o blith poblogaeth o ychydig dros dair miliwn o bobl. Mae miliwn a hanner o bobl yn cael cyswllt â gwasanaethau gofal sylfaenol bob mis a phob blwyddyn mae miliwn a hanner o bobl yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau gofal eilaidd ar gyfer triniaeth neu brofion pellach.

14. Rydym yn gwybod bod y GIG yng Nghymru yn wynebu galw cynyddol am wasanaethau ar adeg pan fo costau gofal, gan gynnwys staffio a thriniaeth, yn cynyddu. Bydd y refeniw ychwanegol yn helpu'r GIG i ddelio â'r costau hynny ond hyd yn oed wedyn, bydd yn ofynnol o hyd i wneud arbedion yn 2025-26, i gefnogi gwelliant a chynaliadwyedd ariannol, gwella cynhyrchiant, a chyflawni gwelliannau o ran perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau.

15. Felly, bydd angen i fyrddau iechyd barhau i drawsnewid y ffordd y maent yn darparu llwybrau a gwasanaethau, gan gynnwys symud mwy o ofal allan o ysbytai, ble bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gofal effeithiol ac effeithlon yn 2025-26. Byddwn yn cefnogi'r GIG i ddod yn fwy cynhyrchiol drwy ddefnyddio'r cynnydd yn ein cyllideb gyfalaf i fuddsoddi mewn offer a thechnoleg ddigidol addas i'r diben, fodern, ddibynadwy. Bydd hyn nid yn unig yn helpu i atal colli cynhyrchiant o fewn y GIG ond hefyd yn helpu i leihau amseroedd aros drwy fynd i'r afael â breuder a chynaliadwyedd y seilwaith.

16. Rydym yn darparu £175m o gyllid cyfalaf ychwanegol, gan ddod â chyfanswm ein buddsoddiad cyfalaf yn y Gyllideb Ddrafft hon i £614m. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i gynnal a gwella seilwaith ystad y GIG, yn ogystal â buddsoddi mewn offer a thechnoleg ddigidol newydd.

17. Gan gydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn mesurau iechyd ataliol, rydym yn ychwanegu £3m at y dyraniadau ar gyfer rhaglenni sgrinio a brechu. Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn canfod rhai materion iechyd yn gynharach ac, yn achos brechu, yn atal salwch mwy difrifol yn nes ymlaen. Byddwn yn parhau i glustnodi dros £820m ar gyfer iechyd meddwl.

18. Rydym yn dyrannu £3m i gefnogi'r sector hosbisau yn 2025-26. Bydd hwn yn gyllid rheolaidd, gan gydnabod eu rôl bwysig o ran cefnogi'r GIG a phawb sydd angen gofal diwedd oes.

19. Rydym yn buddsoddi £20m ychwanegol i gefnogi ein Cynnig Gofal Plant blaenllaw, gan ddarparu cynnydd hanfodol i'r gyfradd fesul awr sy'n cael ei thalu i ddarparwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd y sector, cefnogi'r gweithlu a gwella lleoliadau a'r dewis i rieni. Mae'n dilyn y penderfyniad i wneud rhyddhad ardrethi annomestig i'r sector yn barhaol, gan roi cymorth a sefydlogrwydd ychwanegol i'r sector.

20. Rydym yn parhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ochr yn ochr â chyllid ar gyfer y GIG – rhaid cefnogi'r ddau gyda'i gilydd. Mae gofal cymdeithasol yn cael ei gefnogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Yn 2025-26, bydd y grant cynnal refeniw yn cynyddu £235m i adlewyrchu'r pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol. Rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU i gynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol i £12.21 yr awr ac rydym yn parhau i gefnogi talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, sef £12.61 yr awr, i weithwyr gofal.

21. Rydym hefyd yn cefnogi Gofal Cymdeithasol yn uniongyrchol drwy'r portffolio iechyd a gofal cymdeithasol. Gwnawn hyn drwy gyfres o gronfeydd a grantiau, gan gynnwys mwy na £140m o gyllid wedi'i gyfarwyddo, a fydd yn cael ei gynnal yn 2025-26. Mae hyn yn cynnwys cynnal y cymorth presennol ar gyfer y rhaglen Dileu Elw. Mae ein cyllid ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol hefyd yn cael ei gynnal ac mae'n cynnwys cynlluniau i leihau oedi wrth ryddhau cleifion a gwella'r ddarpariaeth yn y gymuned.

22. Eleni, gwnaethom ymgynghori ar gynyddu ffioedd ar gyfer gofal cartref. Rydym wedi penderfynu cadw'r uchafswm ffi presennol ar £100 yr wythnos. Bydd £5m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol yn y setliad llywodraeth leol i'w cefnogi. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ymdrin ag unrhyw anghysondebau yn y ffordd y mae ffioedd gofal cartref yn cael eu gweithredu ledled Cymru.

## Swyddi a Thwf Gwyrdd

23. Rydym am greu swyddi gwyrdd sy'n tyfu'r economi, yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, gan hefyd sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill. Rydym hefyd am gyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru. Dyma gyllideb sy'n rhoi Cymru ar ben ffordd at dwf.

24. Bydd portffolio'r Economi, Ynni a Chynllunio yn cael £19m o gyllid adnoddau ychwanegol a thros £120m o gyllid cyfalaf – gan gynnwys cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer bargeinion dinesig a thwf.

25. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer cyflogaeth a sgiliau, gan adlewyrchu pwysigrwydd cefnogi pobl i gael swyddi o safon, sy'n ysgogi twf economaidd ac yn mynd i'r afael â thlodi. Bydd buddsoddiad ychwanegol o £6.5m o gyllid adnoddau yn cefnogi ein rhaglen Sgiliau Hyblyg, yn enwedig yn y sectorau hynny sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio.

26. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen brentisiaethau flaenllaw i ddarparu 100,000 o brentisiaethau pob oed yn ystod tymor y Senedd hon ac mae'r gyllideb hon yn cadw'r buddsoddiad adnoddau ar £144m. Bydd dysgwyr rhwng 16 a 24 mlwydd oed yn parhau i gael blaenoriaeth yn unol ag ymrwymiad y Warant i Bobl Ifanc.

27. Rydym yn darparu pecyn o gymorth ardrethi annomestig ychwanegol – rhyddhad wedi'i dargedu ar gyfer busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden a chyllid i gapio'r lluosydd ar 1%, a fydd o fudd i bob trethdalwr – gwerth £85m y flwyddyn nesaf. Mae hyn ar ben ein rhyddhadau parhaol, sy'n werth £250m y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau i flaenoriaethu twf a bydd o fudd i bob trethdalwr.

28. Rydym wrthi'n mynd i'r afael â chapasiti ac oedi yn y system gynllunio sy'n rhwystro twf. Bydd buddsoddiad ychwanegol o £3.7m yn 2025-26 yn helpu i gyflymu penderfyniadau cynllunio ac yn cefnogi rhaglen trawsnewid digidol ar gyfer gwasanaethau cynllunio. Bydd cyllid partneriaid cyflawni allweddol, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cynyddu, gan gynnwys £5m ychwanegol i hybu ei gapasiti i ymdrin â chydsyniadau seilwaith yn brydlon ac i ddarparu'r mewnbwn angenrheidiol yn y prosesau defnydd tir a chynllunio morol

29. Mae cyllid adnoddau ychwanegol o £5m yn cael ei fuddsoddi mewn ynni gwyrdd i gefnogi datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd a systemau ynni lleol clyfar yng Nghymru. Bydd hyn yn cyfuno camau i leihau allyriadau â darparu manteision amgylcheddol, manteision iechyd a manteision cymdeithasol.

30. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn cymorth ar gyfer bargeinion dinesig a thwf ochr yn ochr â'r £88m o gyllid cyfalaf wedi'i glustnodi gan Lywodraeth y DU ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae'r cymorth hwn yn arwydd o fuddsoddiad trawsnewidiol parhaus ledled Cymru i ddarparu swyddi medrus a seilwaith cynaliadwy ac o fuddsoddiad mewn cymunedau ledled Cymru.

31. Mae £23m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn cael ei fuddsoddi i gefnogi ein rhaglen eiddo a seilwaith. Bydd y rhaglen hon yn targedu'r cyflenwad o safleoedd cyflogaeth a datblygiadau eiddo, gan gefnogi swyddi gwyrdd newydd a thwf. Bydd yn canolbwyntio ar brosiectau blaenoriaethol rhanbarthol ar gyfer y Gogledd, y Canolbarth a'r De.

32. Byddwn yn darparu £5m ychwanegol mewn cyllid adnoddau a thros £16m o gyllid cyfalaf ar gyfer diwylliant, treftadaeth a chwaraeon. Byddwn hefyd yn cynyddu buddsoddiad yn ein diwydiannau digwyddiadau a thwristiaeth, gan ddarparu cyllid ychwanegol o £1.5m o ran adnoddau a £3m o ran cyfalaf. Gyda'i gilydd, bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i gynyddu mynediad a chyfleoedd i gymryd rhan i gymunedau ledled Cymru. Bydd hyn yn cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol gwell, ac yn cefnogi ac yn cynyddu cyfleoedd gwaith yn y sectorau pwysig hyn.

33. Mae cyllid yn y portffolio Newid Hinsawdd a Materion Gwledig hefyd yn cefnogi cadw a chreu swyddi gwyrdd drwy reoli perygl llifogydd, diogelwch tomenni glo, gwella ansawdd dŵr, adfer natur, y diwydiant coedwigaeth a phren a ffermio. Mae cyllid ychwanegol o £36m o ran adnoddau ac £72m o ran cyfalaf yn cael ei ddarparu i'r portffolio Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

34. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £65m o gyllid rhwng 2021 a 2025 ar gyfer diogelwch tomenni glo. Gwnaethom ofyn am gyllid tuag at hyn gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2025-26 yng Nghyllideb Hydref y DU, ac fe gawsom £25m. Bydd y cyllid ychwanegol a sicrhawyd gan Lywodraeth y DU yn helpu i liniaru peryglon y tomenni hyn ac yn ein galluogi i ehangu'r grant diogelwch tomenni glo fel y gallwn gyflymu gwaith ar domenni yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod anghenion Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn cael eu hystyried yn llawn.

35. Bydd ein buddsoddiad sylweddol mewn llifogydd yn parhau yn ystod 2025-26. Ers 2021, rydym wedi buddsoddi dros £300m drwy ein rhaglen flynyddol - Rheoli Perygl Llifogydd - i leihau perygl llifogydd i gymunedau ledled Cymru. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, mae'r perygl i dros 25,000 eiddo eisoes yn llai ac mae disgwyl i 11,000 arall elwa erbyn 2025-26. Dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi cynnal y lefelau uchaf erioed o gyllid ar gyfer rheoli llifogydd, sef £75m y flwyddyn drwy ein Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar gyfer cynlluniau lleol i helpu cymunedau i liniaru perygl llifogydd.

36. Mae ein cyllid ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor a chymorth hanfodol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt weithio tuag at ein huchelgais ar y cyd, sef sector cyhoeddus sero net yng Nghymru erbyn 2030. Mae perfformiad ailgylchu Cymru gyda'r gorau yn y byd ac rydym wedi darparu cyllid adnoddau ychwanegol i barhau i adeiladu arno. Rydym hefyd wedi darparu cyllid adnoddau ychwanegol i wireddu'r cyfleoedd economaidd sy'n deillio o gadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd am gyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff drwy fuddsoddi yn yr Economi Gylchol.

37. Rydym yn blaenoriaethu cymorth i'r sector amaeth drwy gadw terfyn uchaf Cynllun y Taliad Sylfaenol ar £238m a darparu cyllid ychwanegol o £5.5m o ran adnoddau ac £14m o ran cyfalaf ar gyfer cynlluniau buddsoddi gwledig ehangach. Bydd hyn yn cefnogi'r broses bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan hefyd hyrwyddo twf gwyrdd drwy annog arferion rheoli tir cynaliadwy a diogelu swyddi yn y sector amaethyddol a'r sector amgylcheddol.

38. Rydym yn parhau i gefnogi gwelliannau i gadwyni cyflenwi bwyd a diod ac yn datblygu sgiliau yn y sector hwn drwy gyllid pellach ar gyfer Blas Cymru, sydd wedi cynhyrchu gwerth dros £35m o gontractau ar gyfer busnesau bwyd a diod Cymru.

## Cyfle i Bob Teulu

39. Mae buddsoddiad sylweddol drwy'r portffolio Tai a Llywodraeth Leol a'r portffolio Addysg, ynghyd â buddsoddiad ychwanegol mewn gofal plant, yr iaith Gymraeg a thrwy'r portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol yn cefnogi ein hamcanion i hybu safonau yn ein hysgolion a'n colegau. Bydd hefyd yn darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo.

40. Mae cyllid ychwanegol o £83.6m o ran adnoddau a £28m o ran cyfalaf yn cael ei ddarparu drwy'r gyllideb Addysg, yn ogystal â chyllid sylweddol a ddarperir ar gyfer ysgolion ac addysg drwy'r setliad llywodraeth leol. Mae hyn yn adeiladu ar gyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer addysg yn 2024-25 a bydd yn helpu i gyflawni ein blaenoriaeth i wella cyrhaeddiad a chynyddu presenoldeb mewn ysgolion.

41. Bydd £7m o gyllid adnoddau ychwanegol yn mynd tuag at gefnogi presenoldeb mewn ysgolion. Rydym yn gwybod bod gormod o blant a phobl ifanc nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd – nid yw hyn yn unigryw i Gymru ac mae'n rhannol o ganlyniad i bandemig Covid-19. Mae colli'r ysgol yn rheolaidd yn effeithio ar addysg plentyn a'i ragolygon at y dyfodol, gan ehangu'r bwlch mewn lefelau cyrhaeddiad.

42. Bydd pecyn o ymyriadau ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion yn cael ei ariannu drwy'r Gyllideb hon. Y nod fydd ymgysylltu â theuluoedd, helpu dysgwyr i fynychu addysg a threchu dadrithiad. Mae hyn yn cynnwys cyllid i awdurdodau lleol i gynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, cyllid ar gyfer y rhaglen ysgolion bro ac ehangu'r rhaglen gwella gwyliau'r haf.

43. Bydd £10m o gyllid adnoddau ychwanegol yn cefnogi dysgu a chyrhaeddiad o ran llythrennedd a rhifedd. Bydd hyn yn darparu cyllid hanfodol ar gyfer rhaglenni cymorth cenedlaethol, gan gynnwys cymorth ffoneg, yn ogystal ag ymyriadau penodol wedi'u targedu i gefnogi dysgwyr sy'n cael trafferth gyda llythrennedd a rhifedd. Bydd hefyd yn helpu i wella'r data a gesglir ar lythrennedd a rhifedd i gefnogi ysgolion.

44. Bydd buddsoddiad ychwanegol o £14.3m o gyllid adnoddau yn cynyddu cymorth i wella'r hyn a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n gynaliadwy. Mae hyn ar ben buddsoddiad pellach mewn cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn 2024-25.

45. Bydd £7.8m o gyllid adnoddau ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol i gefnogi ysgolion a helpu i godi safonau ysgolion. Bydd £31.6m yn cefnogi addysg drydyddol ac yn darparu addysg ôl-16 o ansawdd uchel, tra bydd £93.5m yn cael ei fuddsoddi i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd.

46. Bydd dyraniad ychwanegol o £28m o gyllid cyfalaf yn gwella ein hystad addysg yn ei hanfod, a fydd, yn ei dro, yn helpu i hybu safonau drwy ddarparu amgylchedd sy'n annog presenoldeb a chyrhaeddiad uwch ac sy'n cefnogi cymunedau ledled Cymru.

47. Rydym yn gwybod bod tua 38% o gyllid awdurdodau lleol yn cael ei wario ar addysg. Felly, yn ogystal â chyllid ar gyfer awdurdodau lleol a lleoliadau addysg drwy'r gyllideb Addysg, bydd y cynnydd i'r setliad llywodraeth leol, sef £253m, hefyd yn cefnogi ysgolion, gan gynnwys ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, ac yn parhau â'n rhaglen fuddsoddi mewn Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

48. Bydd cyllideb adnoddau Cymraeg 2050 yn cynyddu £4.6m yn 2025-26, sy'n darparu cymorth y mae mawr ei angen i hybu twf y Gymraeg a'n cefnogi i gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd £3.5m o'r cyllid hwn yn cefnogi'r Gymraeg, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

49. Rydym yn buddsoddi £81m o gyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro. Bydd hyn yn darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan ategu ein gwaith i roi terfyn ar ddigartrefedd a sicrhau bod gan bawb yng Nghymru le gweddus a diogel i'w alw'n

gartref.  Yn ogystal, mae £26.25m o gyfalaf trafodiadau ariannol pellach yn cael ei ddarparu i barhau i gefnogi benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

50. Rydym yn buddsoddi £5.5m o gyllid cyfalaf pellach yn y Rhaglen Byw'n Annibynnol sy'n cefnogi addasiadau tai. Dyma fuddsoddiad effeithiol, ataliol, sy'n cefnogi byw'n annibynnol ac iechyd a llesiant pobl hŷn, oedolion anabl a phlant. Gall hefyd fod o gymorth ar gyfer rhyddhau pobl o'r ysbyty yn amserol.

51. O ran ein buddsoddiad cyfalaf yn y portffolio Tai a Llywodraeth Leol, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gartrefi cymdeithasol – gan ein helpu i gyrraedd ein targed i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol i'w rhentu. Bydd £57m o gyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynllun Cymorth i Brynu a fydd yn helpu pobl i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain. Rydym yn buddsoddi £2m o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer cartrefi rhent preifat drwy Gynllun Lesio Cymru ac yn estyn ein cynllun Cartrefi Gwyrdd drwy Fanc Datblygu Cymru.

## Cysylltu Cymunedau

52. Drwy gyllid ychwanegol o bron i £70m o adnoddau a chyfalaf gwerth £51m, rydym yn bwrw ymlaen â'n hymrwymiadau i foderneiddio ein rheilffyrdd a darparu rhwydwaith bysiau gwell, i drwsio ein ffyrdd, a darparu dewis lleol ar 20mya.

53. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau rheilffyrdd yn y meysydd sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru. Ein blaenoriaeth yw cwblhau prosiect trawsnewidiol Llinellau Craidd y Cymoedd o linell lo Fictoraidd i system Metro fodern. Cyfanswm y dyraniad i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer rheilffyrdd (gan gynnwys elfennau nad ydynt yn Llinellau Craidd y Cymoedd) yw £181.6m.

54. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau dull teg o ariannu rheilffyrdd a buddsoddi yng Nghymru. Bydd hyn yn rhan o ystyriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer cam nesaf yr Adolygiad Gwariant.

55. Mae cyllid ar gyfer rhwydweithiau bysiau yn allweddol wrth inni baratoi a chynllunio ar gyfer masnachfreinio bysiau drwy'r Bil Bysiau sydd ar y gweill, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Mawrth 2025. Mae £9m o gyllid adnoddau ychwanegol yn cael ei fuddsoddi yn 2025-26 i dalu costau ychwanegol gwasanaethau a'r cynllun tocynnau teithio consesiwn a arweinir gan alw.

56. Byddwn yn cynnal grantiau trafnidiaeth cyfalaf i awdurdodau lleol. Bydd y gronfa hon gwerth £120m yn cefnogi buddsoddiad mewn prosiectau ffyrdd cydnerth, strydoedd diogel, teithio llesol, seilwaith bysiau a seilwaith gwefru cerbydau trydan.

57. Rydym yn buddsoddi £27m o gyllid adnoddau ychwanegol yn y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sylweddol a chyflawni ein hymrwymiad i drwsio cyflwr y ffyrdd. Byddwn yn creu cronfa gwella ffyrdd gwerth £25m i wella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a fydd yn ein galluogi i wella 100km o'r rhwydwaith a lleihau ac atal tyllau mewn ffyrdd rhag digwydd.

58. Rydym yn buddsoddi £5m o gymorth adnoddau rheolaidd drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Rheoli Priffyrdd, gan alluogi awdurdodau lleol i

hunangyllido tua £60m o gyllid cyfalaf i'w wario ar reoli priffyrdd a thrwsio ein ffyrdd lleol.

59. Rydym yn gwella'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd, datgarboneiddio, polisi a thystiolaeth gyda chynnydd mewn cyllid adnoddau o £6.9m i £9.0m i'r gyllideb sy'n gysylltiedig â'r strategaeth drafnidiaeth.

### Llywodraeth Leol

60. Mae awdurdodau lleol yn bartner allweddol wrth ddarparu ystod eang o wasanaethau y mae pobl ledled Cymru yn dibynnu arnynt ac yn eu defnyddio bob dydd ac sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni pob un o'n pedair blaenoriaeth. Drwy fuddsoddiad pellach yn y Gyllideb Ddrafft hon, rydym yn diogelu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol rheng flaen ac yn gwella'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau.

61. Rydym yn blaenoriaethu buddsoddiad i awdurdodau lleol, yn union fel yr ydym wedi'i wneud mewn blynyddoedd blaenorol, drwy ddarparu cynnydd o £253m i'r setliad llywodraeth leol, sy’n gynnydd o 4.3% ar sail tebyg at ei debyg. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu gyda'r cyllid sydd ar gael.

62. Mae gofal cymdeithasol, a ddarperir gan awdurdodau lleol ledled Cymru, yn hanfodol i helpu pobl o bob oed i fyw bywydau annibynnol yn eu cymunedau lleol. Mae gofal cymdeithasol hefyd yn cefnogi'r GIG, gan sicrhau y gellir gofalu am bobl yn ddiogel gartref a bod ganddynt y cymorth cywir i wella o salwch neu anaf ar ôl i'w triniaeth yn yr ysbyty ddod i ben. Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn allweddol i wella gwasanaethau ataliol a lleihau oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae tua 30% o gyllid awdurdodau lleol yn cael ei wario ar ofal cymdeithasol.

63. Mae addysg yn wasanaeth hanfodol arall a ddarperir gan awdurdodau lleol, gyda thua 38% o gyfanswm y gwariant, fel yr amlinellwyd yn flaenorol. Mae'r cyllid craidd a ddarperir drwy'r setliad llywodraeth leol yn sail i ddarparu addysg drwy ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol drwy ddarpariaeth prif ffrwd ac ysgolion arbennig, gan ddarparu cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc.

64. Rydym yn parhau i leihau'r baich gweinyddol ar lywodraeth leol drwy adeiladu ar y gwaith i gyfuno neu ddadneilltuo rhai grantiau yn 2024-25. Mae hyn yn adeiladu ar ein perthynas strategol â llywodraeth leol sy’n seiliedig ar ymddiriedaeth a chyflawni mewn partneriaeth. Mae'n llywio'r ffocws i ffwrdd o fiwrocratiaeth ddiangen ac mae'n parhau i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

65. Mae effaith y newidiadau cynnar i grantiau yn 2024-25, er enghraifft cyfuno grantiau addysg, yn dechrau dod i'r amlwg. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol i ddeall yr effeithiau hyn i lywio cam nesaf y gwaith hwn. Rydym hefyd yn cynnal ymarfer i foderneiddio grantiau trafnidiaeth, gan archwilio cyfleoedd i gyfuno grantiau a darparu cyllid trafnidiaeth ar lefel ranbarthol drwy Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

66. Byddwn yn ffurfioli perthynas strategol Llywodraeth Cymru â llywodraeth leol drwy gytundeb partneriaeth â hwy a fydd yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda’n gilydd a'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni, gan ganolbwyntio'n glir ar gyflawni a chanlyniadau i bobl.

## Cydraddoldeb a Threchu Tlodi

67. Darparu cyfleoedd cyfartal a gwella bywydau pawb yng Nghymru yw'r egwyddorion sy'n sail i'n holl flaenoriaethau. Mae cyllid drwy'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, ochr yn ochr â chyllidebau eraill ar draws Llywodraeth Cymru, yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi, cydraddoldeb a gwella llesiant pawb yng Nghymru.

68. Bydd cyllidebau cynhwysiant ariannol yn gweld cynnydd o dros £1m sy'n darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol i ddarparu cymorth brys i'r rhai mwyaf anghenus. Bydd cynhwysiant digidol hefyd yn gweld cynnydd o £1.4m sy'n golygu y gallwn ddarparu rhagor o gymorth sy'n defnyddio llawer o adnoddau a thargedu'r grwpiau sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol.

69. Mae £5m ychwanegol i'r gyllideb Cefnogi Cymunedau yn hwb sylweddol i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac ariannu partneriaethau bwyd lleol. Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant a gweithredu'r *Strategaeth Tlodi Plant* yn ogystal ag ehangu'r cymorth ar gyfer Canolfannau Clyd i barhau i ddarparu lleoedd diogel a chynnes o fewn cymunedau lleol.

70. Bydd pecyn cymorth i'r trydydd sector gwerth tua £1m yn helpu sefydliadau a gwirfoddolwyr i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'r unigolion a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed. Bydd £13,000 o gynnydd i undebau credyd.

71. Mae £1.2m o gyllid ychwanegol yn cael ei fuddsoddi i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r *Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol* i roi cymorth a chyngor i ddioddefwyr ar draws pob rhan o Gymru drwy gyllid grant rhanbarthol.

72. Bydd cyllidebau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol yn cynyddu i ddarparu cymorth hanfodol i dargedu camau gweithredu gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo hawliau dynol, gan adlewyrchu'r cyd-destun heriol sy'n dal i gael ei deimlo gan y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

73. Mae cyllid cyfalaf ychwanegol o £3m i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn cael ei fuddsoddi mewn cynhwysiant digidol, mynd i'r afael â thlodi bwyd, trais yn erbyn menywod, grantiau cyfalaf cam-drin domestig a cham-drin rhywiol a'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

## Cyfalaf

74. Cyhoeddwyd ein *Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru* ym mis Rhagfyr 2021, gan nodi'r canlyniadau y dylai buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru eu galluogi dros gyfnod o 10 mlynedd. Gwnaeth Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ein hymrwymo i ddatblygu cyfres o *Gynlluniau Cyllid Seilwaith*, i roi'r dull ar waith yn seiliedig ar setliadau cyllideb Llywodraeth y DU dros dymor y strategaeth.

75. Rydym yn cyhoeddi ein hail Gynllun Cyllid Seilwaith ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft 2025-26 hon sy'n dyrannu dros £3bn o gyfalaf i gefnogi ein cynlluniau seilwaith dros gyfnod y gyllideb o flwyddyn. Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith yn nodi'r meysydd buddsoddi mewn seilwaith a fydd yn galluogi'r gwaith o gyflawni ystod eang o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ac yn rhoi Cymru ar ben ffordd tuag at dwf.

76. O gynnal a chadw ac uwchraddio ein ffyrdd, i ddatgarboneiddio mwy o gartrefi drwy waith ôl-osod, mae'r buddsoddiadau mewn seilwaith a ddisgrifir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith yn ffordd hanfodol o gyflawni'r weledigaeth o Gymru decach, wyrddach a mwy llwyddiannus.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

77. Rydym yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar ein portffolio presennol o fuddsoddiad cyfalaf trafodiadau ariannol, gan fuddsoddi dros £127m mewn amrywiaeth eang o brosiectau sy'n rhoi cymorth i fusnesau a'r sector tai, gan roi budd i sawl rhan o'n cymdeithas a'n heconomi. Mae'r dyraniadau ar gyfer eleni wedi'u nodi isod:

| Prif Grŵp Gwariant (MEG) | Rhaglen | Buddsoddiad (£m) |
|---|---|---|
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | Rhaglen Benthyciadau Digarbon AB / AU | 10 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | Morglawdd Caergybi[6] | 20 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | Benthyciadau Busnes Gwyrdd | 4.5 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | Cynllun Angylion Buddsoddi | 3 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru | 2 |
| Llywodraeth Leol a Thai | Cymorth i Brynu | 57 |
| Llywodraeth Leol a Thai | Benthyciadau Datblygu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 26.25 |
| Llywodraeth Leol a Thai | Ôl-osod Tai | 3 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol | 1.5 |
| **Cyfanswm** | | **127.25** |

78. Bydd y buddsoddiad ym Morglawdd Caergybi yn sicrhau bod gwaith atgyweirio hanfodol yn cael ei gwblhau i strwythur y morglawdd Fictoraidd 2.4km o hyd. Bydd yn diogelu dyfodol y porthladd, gan ddiogelu swyddi o safon yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig.

79. Bydd Benthyciadau Busnes Gwyrdd yn cefnogi busnesau bach a chanolig eu maint, i annog buddsoddiad mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni a phrosiectau datgarboneiddio.

80. Byddwn yn parhau â'n cymorth i fusnesau yng Nghymru drwy ddarparu ffynhonnell o gyllid amgen drwy angylion buddsoddi, tra bydd Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru

[6] Mae hyn yn wariant wedi'i ailbroffilio o 2024-25 ac nid yw'n fuddsoddiad ychwanegol

yn cefnogi microfusnesau, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol yn benodol. Bydd y cynlluniau hyn yn annog creu busnesau newydd a thwf economaidd yng Nghymru.

81. Mae rhaglen Cronfa Benthyciadau Digarbon yn cefnogi sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru i ddatgarboneiddio adeiladau, lleihau allyriadau carbon ac arbed costau ynni o bosibl. Rydym yn dyrannu cyllid i estyn y cynllun am ail flwyddyn.

82. Rydym yn buddsoddi swm sylweddol o gyfalaf trafodiadau ariannol mewn cynlluniau sy'n gysylltiedig â thai, i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaeth i ddarparu Cyfle i Bob Teulu. Mae Cymorth i Brynu Cymru wedi cefnogi miloedd o bobl i wireddu eu breuddwyd o fod yn berchen ar gartrefi ers ei lansio ym mis Ionawr 2014, gyda thros 14,000 o gartrefi newydd wedi'u darparu hyd yma. Felly, rydym yn darparu cyllid i estyn y cynllun am 18 mis arall. Rydym hefyd yn estyn y cynllun Benthyciadau Datblygu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig am flwyddyn. Mae hyn wedi profi i fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo. Bydd y buddsoddiadau hyn yn rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu tai a'r gadwyn gyflenwi ar gyfer datblygu, gyda datblygiadau newydd yn ymgorffori nodweddion gwyrdd ychwanegol, megis ffynonellau ynni adnewyddadwy i helpu i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. I'r rhai sydd eisoes yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, rydym yn buddsoddi i helpu ôl-osod a datgarboneiddio eu cartrefi drwy ariannu pympiau gwres a phaneli solar.

83. Mae’r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol yn cynnig cyllid tymor hir i sefydliadau corfforedig y sector gwirfoddol i'w galluogi i gymryd perchnogaeth o asedau cymunedol a'u diogelu i gefnogi cymunedau difreintiedig a lleihau anghydraddoldeb. Mae ymyriadau arfaethedig eleni yn ataliol eu natur, er enghraifft darparu llety i blant sy'n derbyn gofal.

# Pennod 5: Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario

## Cyllideb Gwariant Cymru

1. Mae gwariant datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2025-26 yn cynnwys dyraniadau o £24.9bn i Brif Grwpiau Gwariant (MEGs) Llywodraeth Cymru.

2. Mae'r tablau sy'n ategu'r naratif Cyllideb Ddrafft hwn i'w gweld yn y tablau llyfr gwaith ffynhonnell ddata agored (ODS) sy'n ategu'r cynlluniau gwario, ar dudalen we Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru: Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario

3. Mae cyhoeddi'r tablau mewn un ddogfen mewn fformat ODS yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y cyflwynir data'r Gyllideb a gwneud y data yn agored i bawb.

4. Mae'r tablau yn y llyfr gwaith ODS yn cynnwys:

   - Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru;
   - Dyrannu Cyllideb Cymru;
   - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru;
   - Newidiadau i Ddyraniadau Adnoddau MEG Llywodraeth Cymru;
   - Newidiadau i Ddyraniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru;
   - Newidiadau i Ddyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru;
   - Benthyca Uniongyrchol at Ddibenion Cyfalaf;
   - Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol a Dadagregu;
   - Mapio Dyraniadau'r Gyllideb Cyfalaf i Feysydd Buddsoddi a Sectorau;
   - Cysoni'r Gyllideb Weinyddol a'r Dyraniadau Adnoddau yng Nghynigion y Gyllideb Ddrafft;
   - Newidiadau o Flwyddyn i Flwyddyn; a
   - Newidiadau o Flwyddyn i Flwyddyn sy'n adlewyrchu diweddariadau i Gyfraniadau Tâl a Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol (SCAPE).

5. Mae'r tabl sy'n nodi dyraniadau Cyllideb Cymru yn dangos cydrannau cyllideb gwariant Cymru, wedi'u dadansoddi yn ôl MEG, a chyllidebau dangosol Comisiwn y Senedd, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n dangos hefyd gyllid cronfeydd wrth gefn heb ei ddyrannu gan adlewyrchu ein strategaeth gyllidol o ddefnyddio cyllid a ddelir yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn a pheidio â chynnal cronfa wrth gefn DEL heb ei dyrannu. Mae'r dyraniadau MEG yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir ym Mhennod Pedwar, ac yn ffurfio ein cyfansymiau rheoli ar gyfer rheoli'r Gyllideb drwy gydol y flwyddyn.

6. Mae tablau ychwanegol ar gyfer Cyllideb 2025-26 yn unig. Mae'r rhain yn dangos y newidiadau canrannol sy'n deillio o gymharu ffigurau Cyllideb Ddrafft 2025-26 â Chyllideb Derfynol 2024-25 a ailddatganwyd, ond maent hefyd yn cynnwys newidiadau cylchol i dâl a SCAPE[7] a gododd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn rhoi golwg ychwanegol ar gymharedd.

[7] Mae SCAPE yn cyfeirio at y broses ar gyfer pennu cyfraddau cyfraniad cyflogwyr ar brisiadau o gcynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu.

## Categorïau o Wariant

7. O fewn y dyraniadau MEG, ceir gwahanol fathau o wariant a ddefnyddir at wahanol ddibenion:

    - Adnoddau cyllidol;
    - Adnoddau anghyllidol;
    - Cyfalaf cyffredinol;
    - Cyfalaf Trafodiadau Ariannol; a
    - Gwariant a Reolir yn Flynyddol

8. Mae'r tablau sy'n dangos crynodebau o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru 2025-26 yn nodi'r dyraniadau MEG yn ôl y categorïau hyn. Gellir eu gweld drwy ddefnyddio'r ddolen i'r llyfr gwaith ODS a welir ym mharagraff 5.02

## Atodiad A: Gwybodaeth dechnegol am gynlluniau Cyllid Arloesol

1. Mae cynlluniau Cyllid Arloesol a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) yn rhoi hwb y mae ei fawr angen i gyllidebau cyfalaf, gan sicrhau bod cyfleusterau hanfodol i'r cyhoedd yn cael eu darparu'n gynt nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

2. Mae *Cynllun Cyllid Seilwaith 2025-26* a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon, yn adlewyrchu'r dyraniadau cyllideb cyfalaf newydd ar gyfer y blwyddyn ariannol 2025-26 a'r rôl y mae ein cynlluniau cyllid arloesol, megis MIM, yn ei chwarae wrth gefnogi canlyniadau *Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*. Mae'n nodi hefyd sut y byddwn yn parhau i ariannu ystod o fuddsoddiadau seilwaith drwy gynlluniau a ariennir gan refeniw.

3. Mae cyllid heb ei neilltuo'n dal i gael ei ddosbarthu drwy'r grant cynnal refeniw ar gyfer dwy o fentrau benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer priffyrdd ac ysgolion. Mae cyllid hefyd yn parhau i gael ei ddyrannu ar gyfer dau gylch o fuddsoddi gan ddefnyddio'r Grant Cyllid Tai.

4. Bydd y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol yn cynnal ei buddsoddiad yn asedau amddiffyn arfordirol yr awdurdodau lleol i reoli risgiau newid hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr i gymunedau arfordirol yn awr ac yn y dyfodol. Dechreuodd y gwaith o adeiladu'r cynllun cyntaf yn 2019-20 ac mae'r gyllideb yn parhau i gario cyllid drosodd ar gyfer y rhaglen hyd at 2025-26. Ar hyn o bryd mae 15 o gynlluniau'r awdurdodau lleol yn y rhaglen ac, wrth ddyrannu setliad amlflwyddyn, byddwn yn monitro proffil cyflawni'r cynlluniau hyn.

5. Mae tri chynllun yn cael eu cyflawni gan ddefnyddio'r MIM. Disgwylir i brosiect deuoli'r A465 gael ei gwblhau yn 2025. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chwmni Partneriaeth Addysg Cymru ar adeiladu nifer o ysgolion a cholegau fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae'r ddau brosiect addysg MIM cyntaf bellach ar y gweill - ysgol pob oed ym Mynydd Isa gyda Chyngor Sir y Fflint a datblygiadau i ysgolion cynradd gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf. Disgwylir i'r gwaith o adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre gael ei gwblhau yn 2027.

6. Ni fydd taliadau gwasanaeth ar gyfer cynlluniau MIM yn dechrau nes y bydd y prosiectau seilwaith newydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd.

7. Bydd cyfalaf trafodiadau ariannol yn parhau i gael ei ddefnyddio i ariannu cyfranddaliadau'r sector cyhoeddus mewn cynlluniau MIM. Caiff hyn ei rheoli gan Fanc Datblygu Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

8. I gefnogi ein hymrwymiad i dryloywder, cyhoeddwyd yr ail adroddiad MIM cyntaf ym mis Mai 2024, sy'n disgrifio ein gweithgareddau rhwng mis Gorffennaf a mis Mawrth 2024. Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r Cytundeb Partneriaeth Strategol ar gyfer Addysg a chytundeb prosiect yr A465 (gan ddileu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol).

# Atodiad B: Rhagolygon trethi datganoledig ac addasiadau i'r grant bloc

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer refeniw o drethi datganoledig a manylion eu heffaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru.
2. Mae datganoli trethi yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'r refeniw o drethi datganoledig yn gyfran sylweddol o gyfanswm y cyllid ar gyfer y gyllideb (ynghyd ag ardrethi annomestig, maent yn cyfrannu tua 20%). Yn ail, mae gostyngiadau i'r grant gan Lywodraeth y DU, a elwir yn addasiadau i'r grant bloc, yn cyd-fynd â'r refeniw hwn.
3. Roedd lefel gychwynnol yr addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar y refeniw yng Nghymru o'r dreth berthnasol adeg datganoli. Mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn yr addasiadau yn seiliedig ar dwf yn y ffrydiau refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r mecanweithiau manwl wedi'u nodi yn y cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru[8].
4. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer refeniw o drethi datganoledig a ddefnyddir yn y gyllideb yn rhagolygon a gynhyrchir yn annibynnol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), yn unol â'r cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar ragolygon refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer yr un flwyddyn, eto gan yr OBR. Mae'r rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig wedi'u nodi'n fanylach yn y *Rhagolwg Trethi Cymreig* a gyhoeddir gan OBR ochr yn ochr â chyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r rhagolygon perthnasol ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r cyhoeddiad hwnnw.
5. Mae rhan gyntaf yr adroddiad hwn yn nodi effaith net datganoli trethi – y gwahaniaeth rhwng refeniw o drethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc bob blwyddyn.
6. Gan fod effaith gyllidebol datganoli trethi yn seiliedig ar ragolygon, mae angen proses gysoni unwaith y bydd gwybodaeth alldro flynyddol ar gael. Caiff symiau cysoni eu cymhwyso i'r gyllideb mewn blynyddoedd diweddarach. Mae ail ran yr adroddiad hwn yn dangos y set ddiweddaraf o symiau cysoni.
7. Mae'r drydedd ran yn nodi sut mae refeniw, addasiadau i'r grant bloc a symiau cysoni yn effeithio ar y ffynonellau cyllid yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

## Adran 1: Refeniw ac Addasiadau i'r Grant Bloc

8. Mae'r adran hon yn cynnwys y rhagolygon diweddaraf ar gyfer refeniw o drethi, ochr yn ochr ag alldro ar gyfer blynyddoedd y mae'r alldro ar gael ar eu cyfer. Mae'r rhain wedi'u nodi yn nhabl 1, ynghyd â'r alldro a'r rhagolygon ar gyfer yr addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc.

[8] Cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

Tabl 1: Alldro a Rhagolygon Refeniw o Drethi ac Addasiadau i'r Grant Bloc (£m)

| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | |
| Cyfraddau treth incwm Cymru | 2,384 | 2,618 | 2,924 | 3,257 | 3,462 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 402 | 372 | 272 | 319 | 338 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 45 | 42 | 30 | 31 | 32 |
| Is-gyfanswm | **2,832** | **3,032** | **3,226** | **3,608** | **3,833** |
| **Addasiadau i'r Grant Bloc** | | | | | |
| Cyfraddau treth incwm Cymru | (2,312) | (2,535) | (2,777) | (3,078) | (3,262) |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | (287) | (313) | (237) | (259) | (298) |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | (26) | (25) | (19) | (20) | (15) |
| **Is-gyfanswm** | **(2,625)** | **(2,872)** | **(3,033)** | **(3,357)** | **(3,575)** |
| **Effaith net ar refeniw** | | | | | |
| Cyfraddau treth incwm Cymru | 72 | 83 | 147 | 179 | 201 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 115 | 60 | 35 | 61 | 40 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 19 | 17 | 11 | 11 | 18 |
| **Is-gyfanswm** | **206** | **160** | **193** | **251** | **258** |

Alldro

9. Mae'r rhagolygon cyffredinol ar gyfer effaith refeniw net trethiant datganoledig yn dal yn gadarnhaol. Syrthiodd yn ôl ychydig yn 2022-23 ond disgwylir iddo gynyddu yn 2023-24 a 2024-25. Rhagwelir y bydd effaith net y trethi datganoledig ar refeniw yn 2025-26 yn fwy na 258m yn gyfan gwbl, gyda chyfraniadau positif gan y tair treth.

## Adran 2: Symiau cysoni

10. Nid yw gwybodaeth alldro ar gyfer refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) na'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc ond ar gael tua 16 mis ar ôl diwedd y flwyddyn berthnasol. Cyhoeddwyd yr wybodaeth alldro ddiweddaraf ar gyfer 2022-23 ym mis Gorffennaf eleni.

11. Mae'r ddwy elfen yn sefydlog at ddibenion cyllidebol gan ddefnyddio rhagolygon yr OBR o'r hydref blaenorol. Cyhoeddwyd nodyn technegol ar y cyd â Thrysorlys EF ar 3 Hydref 2024, yn rhoi manylion y symiau cysoni ar gyfer 2022-23. Ar gyfer 2023-24 a 2024-25, amcangyfrifir symiau cysoni gan ddefnyddio'r rhagolwg diweddaraf. Dangosir symiau cysoni gwirioneddol a rhagolygol yn Nhabl 2.

Tabl 2: Symiau cysoni, alldro a rhagolygon (£m)

| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfraddau Treth Incwm Cymru** | | | | |
| Yn cael eu defnyddio mewn Cyllidebau | | | | |
| Refeniw | 2,064 | 2,478 | 2,795 | 3,171 |
| Addasiadau i'r Grant Bloc | (2,099) | (2,447) | (2,733) | (3,017) |
| Alldro a'r rhagolygon diweddaraf | | | | |
| Refeniw | 2,384 | 2,618 | 2,924 | 3,257 |
| Addasiadau i'r Grant Bloc | (2,312) | (2,535) | (2,777) | (3,078) |
| Symiau cysoni | | | | |
| Refeniw | 320 | 140 | 128 | 86 |
| Addasiadau i'r Grant Bloc | (213) | (87) | (44) | (61) |
| | | | | |
| **Trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn** | | | | |
| Addasiadau i'r Grant Bloc a ddefnyddir mewn Cyllidebau | | | | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | (277) | (322) | (241) | (259) |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | (23) | (27) | (21) | (20) |
| Alldro'r Addasiadau i'r Grant Bloc a'r rhagolygon diweddaraf | | | | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | (287) | (313) | (237) | (259) |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | (26) | (25) | (19) | (20) |
| Symiau cysoni | | | | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | (10) | 9 | 4 | |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | (3) | 2 | 2 | |

Alldro

12. Mae data alldro ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi) a threthi cyfatebol y DU yn fwy amserol ac maent bellach ar gael hyd at 2023-24.

13. Fel yn achos CTIC, gosodir yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn gan ddefnyddio rhagolygon yr hydref blaenorol ond, yn wahanol i CTIC, fe'u hadolygir yn ystod y flwyddyn hefyd. Mae hyn yn golygu bod y symiau cysoni ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc yn tueddu i fod yn gymharol fach. Dangosir y rhain yn Nhabl 2 hefyd. (Nid oes unrhyw gysoni ar gyfer y refeniw o'r trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn eu hunain, gan fod alldro yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar unwaith.)

## Adran 3: Rhagolygon a symiau cysoni yng nghyllideb Llywodraeth Cymru

14. Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd wybodaeth o'r ddwy adran gyntaf i ddangos yr effaith gyffredinol ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Mae Tabl 3 yn rhoi manylion ar gyfer 2025-26 sy'n cyd-fynd â'r tabl Ffynonellau Cyllid, sef tab 1 yn y llyfr gwaith ODT Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario.

15. Mae'r symiau cysoni ar gyfer refeniw CTIC a'r addasiadau i'r grant bloc yn cael eu cymhwyso i'r gyllideb dair blynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn perthyn iddi. Felly, mae symiau cysoni 2022-23 yn cael eu cymhwyso i Gyllideb 2025-26.

16. Mae'r cysoniadau ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc sy'n ymwneud â LTT a LDT yn cael eu cymhwyso ddwy flynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn cyfeirio ati. Mae symiau cysoni 2023-24 yn cael eu cymhwyso yn 2025-26.

Tabl 3: Rhagolygon a symiau cysoni yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 (£m)

| | Cyllideb Ddrafft 2025-26 Rhagfyr 2024 |
|---|---|
| **Refeniw o drethi** | |
| Refeniw CTIC | 3,462 |
| Symiau cysoni refeniw CTIC | 140 |
| Cyfanswm CTIC | 3,603 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 338 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 32 |
| **Cyfanswm refeniw trethi datganoledig** | **3,973** |
| **Addasiadau i'r Grant Bloc** | |
| Cyfraddau treth incwm Cymru | (3,262) |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | (298) |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | (15) |
| Symiau cysoni o flynyddoedd blaenorol | |
| Cyfraddau treth incwm Cymru | (87) |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 4 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 2 |
| Is-gyfanswm | |
| Cyfraddau treth incwm Cymru | (3,349) |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | (294) |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | (13) |
| **Cyfanswm addasiadau i'r grant bloc** | **(3,656)** |
| **Cyfanswm yr effaith net ar y gyllideb** | **317** |

17. Mae effaith net gyffredinol trethi datganoledig ar gyllideb 2025-26 yn fwy na £317m, gan gynnwys symiau cysoni mewn perthynas â'r blynyddoedd blaenorol.

# Atodiad C: Rhestr o Dermau Ariannol

### Adnoddau (a elwid gynt yn ‘refeniw’)
Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu gwasanaethau a nwyddau traul.

### Adolygiad o Wariant
Bob dwy neu dair blynedd, mae Trysorlys EF yn adolygu gwariant pob un o adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y Llywodraethau Datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng fformiwla Barnett. Dyma’r dull a ddefnyddir gan Drysorlys EF i gyfrifo’r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu’r newidiadau yn lefelau’r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.

### Cam Gweithredu
O fewn pob Maes Rhaglen Wariant (SPA), dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.

### Cronfa Gyfunol Cymru
Y cyfrif sy’n derbyn yr arian sydd i’w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.

### CNLC
Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

### Cronfa Wrth Gefn Cymru
Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru ar waith ers mis Ebrill 2018 fel dull i alluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb ar draws cyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru gadw’r refeniw a fydd yn weddill o’r trethi datganoledig a’r tanwariant ar y DEL yn y Gronfa i’w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i’r Gronfa ddal hyd at £350m, gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i’r Gronfa.

### Cwmpasoedd
Disgrifiadau o’r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi’u hawdurdodi gan y Senedd i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o’r cwmpasoedd a’r terfynau o ran adnoddau wedi’u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae’r cwmpasoedd yn cyfateb i’r Prif Grwpiau Gwariant (MEG).

### Cyfalaf
Gwariant sy’n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o’r DEL Cyfalaf yn cynnwys Cyfalaf Trafodiadau Ariannol.

**Cyfalaf Trafodiadau Ariannol**
Mae Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf na ellir ei ddefnyddio ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys EF.

**Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)**
Cyfanswm rheoli gan Drysorlys EF yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

**Cylch Gwario**
Mae'r Cylch Gwario yn broses a arweinir gan Drysorlys y DU i ddyrannu adnoddau ar draws yr holl adrannau llywodraeth, yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth. Nid yw'n cynnwys diwygiad i ragolygon trethi.

**Cyllidebu adnoddau**
Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys codi swm am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.

**Cynnig y Gyllideb**
Y dull a ddefnyddir gan y Senedd i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.

**DEL Adnoddau Anghyllidol (a elwid gynt yn 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')**
Y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sy'n sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas ag amhariadau o ran benthyciadau i fyfyrwyr a dibrisiant. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.

**DEL Adnoddau Cyllidol (a elwid gynt yn 'adnoddau sydd bron yn arian parod')**
Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.

**Derbyniadau**
Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.

**Dibrisiant**
Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw.

### Fformiwla Barnett

Y fformiwla a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc a ddyrennnir i Lywodraeth Cymru (ac i'r Llywodraethau Datganoledig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn cael yr un newidiadau i gyllid y pen o'r boblogaeth â'r hyn a gyhoeddir yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2016, caiff ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei gymhwyso hefyd i ddyraniadau fformiwla Barnett i Gymru. Ar hyn o bryd mae hwn wedi'i bennu ar 5% yn ychwanegol.

### Gwariant a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru

Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol ei godi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac nad yw felly'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol y mae cydnabyddiaeth ariannol y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfwyddyn yn yr un ffordd â'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EF. Mae AME, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. Caiff gwariant awdurdodau lleol a gyllidir drwy Ardrethi Annomestig ei gynnwys mewn cyllidebau AME hefyd.

### Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn [Cyllidebau Llywodraeth Cymru](Cyllidebau Llywodraeth Cymru).

### Prif Grŵp Gwariant (MEG)

Caiff Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Ceir wyth MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyllid a Llywodraeth Leol; Addysg a'r Gymraeg; Newid Hinsawdd; Yr Economi; Materion Gwledig; Cyfiawnder Cymdeithasol; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

### Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)

Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.